# Grant Cynulleidfaoedd Newydd

## Creu newid parhaol

GRANT CYNULLEIDFAOEDD NEWYDD
NEW AUDIENCES GRANT

ADRODDIAD EFFAITH 2022–25

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Cymru Greadigol
Creative Wales

# Creu newid parhaol

RHAGAIR GAN HELGARD KRAUSE, PRIF WEITHREDWR CYNGOR LLYFRAU CYMRU



**Yn 2022 sefydlwyd y Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol.** Ei diben oedd cryfhau ac amrywio'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar dri phrif nod:

- Datblygu awduron, darlunwyr neu gyfranwyr newydd o gefndiroedd diwylliannol amrywiol neu grwpiau a dangynrychiolir o Gymru, a rhoi'r cymorth a'r cyfleoedd allai fod eu hangen arnynt i gael eu cyhoeddi neu i weithio yn y sector yng Nghymru;
- Targedu darllenwyr newydd trwy ddatblygu cynnwys gwreiddiol a/neu ddefnyddio cyfryngau neu fformatau nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd;
- Sefydlu busnesau cyhoeddi neu gyhoeddiadau newydd a fydd yn cryfhau ac yn amrywio'r hyn sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

Pan sefydlwyd y gronfa, roeddem yn chwilio am brosiectau a fyddai'n ysgogi newid parhaol yn ein sector, drwy greu cyfleoedd, cynyddu cynrychiolaeth a chefnogi busnesau.

Tair blynedd ac £1.5 miliwn yn ddiweddarach, mae'r Adroddiad Effaith hwn yn gallu edrych yn ôl ar dros 100 o brosiectau ledled Cymru. Ond mae'r straeon y tu ôl i'r ffigurau hyn yn bwysicach fyth wrth i ni weld sut mae'r grantiau wedi creu swyddi, cefnogi cyflog teg, hwyluso cydweithio, mentora lleisiau newydd a galluogi cyhoeddi deunyddiau diwylliannol newydd.

Datblygodd rhai prosiectau a thyfu dros dair blynedd olynol o gyllido, gan gefnogi nodau hirdymor y gronfa i wella cynrychiolaeth deg o fewn y sector. Mae grantiau eraill wedi cefnogi rhaglenni i roi cynnig ar syniadau newydd neu hwyluso partneriaethau. Mae awduron, darlunwyr a'r gweithlu ehangach, yn enwedig y rhai o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y diwydiant, nid yn unig wedi gallu dechrau gyrfa ym myd cyhoeddi ond hefyd wedi gallu aros a ffynnu. Amlygodd llwyddiant y gronfa yr angen am brosiectau cynhwysol a'u heffaith gadarnhaol ar y diwydiant.

Mae arian Cynulleidfaoedd Newydd wedi bod yn gymorth hanfodol i'r diwydiant cyhoeddi yn ystod cyfnod anodd iawn. Mae'r prosiectau a'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn dangos potensial trawsnewidiol y gronfa. Maent hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gyllid rheolaidd, hirdymor i ddatblygu llif o dalent a phrofiad, i fuddsoddi yn ein hisadeiledd cyhoeddi ac i sicrhau sector cyhoeddi sy'n adlewyrchu Cymru gyfan, sydd o fudd i bawb ac yn agored i bawb.

## Cynulleidfaoedd Newydd
## mewn rhifau

| | | |
|---|---|---|
| **3** blynedd | **100+** o brosiectau wedi eu cefnogi | **117** o swyddi newydd wedi eu creu |
| **546** o weithiau newydd wedi eu comisiynu | **113** o gyhoeddiadau newydd | **8** o fentrau wedi eu datblygu |
| **75** o gyfleoedd gyrfa cynnar | **£1.5miliwn** gan Cymru Greadigol | **41** o gyhoeddwyr llyfrau a chylchgronau wedi eu cefnogi |









# Datblygu sgiliau a chreu cyfleoedd

**Gall y diwydiant cyhoeddi ond dod yn gwbl gynrychioliadol o Gymru fywiog ac amlochrog os yw'r diwydiant ei hun yn hygyrch ac yn cynnig cyfleoedd i bawb.** Os ydym am gyflwyno arlwy gwirioneddol gynhwysfawr i ddarllenwyr yng Nghymru, mae angen i lyfrau, cylchgronau a chynnwys digidol gael eu hysgrifennu a'u comisiynu gan weithlu sy'n gallu cynnig yr ystod ehangaf o safbwyntiau, profiadau a syniadau.

Mae cyllid Cynulleidfaoedd Newydd wedi rhoi cyfleoedd cynnar yng ngyrfa tua 75 o unigolion, gan gynnwys 4 awdur newydd, a 24 o gyfranwyr newydd i flodeugerddi, cylchgronau neu lwyfannau ar-lein. Mae swyddi newydd mewn rolau creadigol a busnes, megis marchnata, comisiynu a dylunio, wedi darparu llwybrau newydd i mewn i'r sector cyhoeddi, yn meithrin talent newydd ar draws y diwydiant.

### FIREFLY IGNITE

Ymunodd Lucy Mohan â Firefly Press yn 2022 fel Cynorthwyydd Golygyddol rhan-amser o dan y grant Cynulleidfaoedd Newydd cyntaf. Diben ei rôl oedd i ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd amrywiol a threfnu sesiynau *Ignite* i egluro dirgelion y diwydiant cyhoeddi a chefnogi awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Arweiniodd ei llwyddiant yn y rôl at swydd barhaol gyda Firefly Press ac mae ei gwaith yn y maes hwn yn parhau.

### NATION.CYMRU
RHAGLEN DATBLYGU TALENT

Ymunodd Ant Evans â gwefan newyddion ddigidol Nation.Cymru yn 2022 gyda chyllid Cynulleidfaoedd Newydd, i adolygu teitlau Cymraeg ac i ehangu cynnwys Cymraeg. Yn 2024 fe'i penodwyd yn Olygydd Llyfrau Cymraeg cyntaf y gwasanaeth, gan weithio i ddod ag awduron Cymraeg at gynulleidfa newydd.

### Y CWMNI DIWYLLIANNOL A CHELFYDDYDOL ROMANI
PROSIECT 'GYPSY WRITERS'

Menter lenyddol i ddatblygu ysgrifennu newydd gan awduron Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sydd heb eu cyhoeddi, sy'n byw yng Nghymru:

> “Darparodd y cyllid sefydlogrwydd ariannol a chydnabyddiaeth i awduron newydd o blith cymunedau'r Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Daeth â thalent anweledig awduron newydd yn fyw, gan ledaenu eu straeon i gynulleidfa ehangach ac arddangos y dalent gyfoethog sydd o fewn y cymunedau hyn.”

## Swyddi a chyfleoedd a chrëwyd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Golygu | Marchnata | Llawn amser | Ymchwil |
| Rhan amser | Mentora | Ymgynghoriaeth | Darlunio |
| Comisiynu | Dylunio | Gweinyddu digwyddiadau | Llawrydd |
| Fideograffi | Interniaeth | Datblygu gwefan | Rheoli prosiect |

# Cynnwys newydd, darllenwyr newydd, llwyfannau newydd

**Er mwyn i ddarllen fod yn berthnasol i gynulleidfa newydd, ehangach, yna mae angen i'r deunydd a gynigir i ddarllenwyr fod yn ehangach ei apêl ac yn hygyrch ar fwy o lwyfannau.**

Dros y tair blynedd diwethaf mae cyllid Cynulleidfaoedd Newydd wedi darparu dros 540 o weithiau newydd ac amrywiol, yn ffaith a ffuglen, yn weledol ac ysgrifenedig, yn y cyfryngau digidol ac analog. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ystod y cynnwys sydd ar gael yn y tymor byr, a chyda cefnogaeth barhaus, gallai cynulleidfaoedd newydd ddod yn gynulleidfaoedd ffyddlon a chyflawni newid hirdymor.

Nod llawer o'r prosiectau Cynulleidfaoedd Newydd yw taflu goleuni ar y byd cyhoeddi yng Nghymru a chynyddu hygyrchedd i yrfaoedd yn y diwydiant. Hyd yn hyn, mae dros 75 o ddarpar awduron a beirdd wedi cael cyfleoedd yn gynnar yn eu gyrfa. Mae hwn wedi cynnwys cyhoeddi llyfrau cyntaf, cyfrannu at gasgliadau ffeithiol, derbyn comisiwn i ysgrifennu erthyglau, a datblygu stribedi comig. Mae'r gefnogaeth hon wedi tynnu sylw at dalent Cymraeg a Chymreig ac wedi denu buddsoddiad pellach, yn cyfoethogi'r dirwedd lenyddol a darparu awduron, beirdd ac ysgrifennu newydd i ddarllenwyr.

### GWASG Y BWTHYN Y DELYN AUR

Derbyniodd Gwasg y Bwthyn grant yn 2022 i gefnogi Malachy Owain Edwards i ysgrifennu ei lyfr cyntaf. Mae *Y Delyn Aur* yn ddarn o waith ffeithiol greadigol Cymraeg sy'n archwilio hunaniaeth amlddiwylliannol yn y DU ôl-Brexit a phandemig. Cyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2023. Mae llyfr nesaf Malachy, *Paradwys Goll*, hefyd yn cael ei gefnogi gan gyllid Cynulleidfaoedd Newydd ac mae disgwyl ei gyhoeddi yn 2025.

### PROSIECT YSGRIFENNU CREADIGOL LLEISIAU NEWYDD


Yn 2022, creodd Dr Hanin Abou Salem, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, raglen 5 mis o weithdai ysgrifennu a chymorth ar-lein i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru a oedd yn dyheu am fod yn awduron cyhoeddedig. Cyhoeddwyd *Unheard Voices*, llyfr o farddoniaeth gan y cyfranogwyr, yn 2023.


### MATERIAL QUEER


Cyhoeddiad annibynnol ar-lein LGBTQ+ sy'n dathlu diwylliant cwiar yn ei holl ffurfiau:


> **"Galluogodd yr ariannu … lansio cylchgrawn diwylliannol LGBTQ+ cyntaf y DU a chreu Cwmni Buddiannau Cymunedol, Memories from the Dance Floor CIC, i gefnogi'r gymuned LGBTQ+ i daflu eu lleisiau ymhellach trwy ddefnydd cyfryngau amrywiol gan gynnwys newyddiaduraeth ysgrifenedig a digidol, sain a ffilm."**


# Llyfrau sydd wedi eu cefnogi




























## Cylchgronau sydd wedi eu cefnogi

Klust.

MODRON
MODRON MAGAZINE
WRITING ON NATURE & THE ECOLOGICAL CRISIS

THESE PAGES SING

CWLWM

POETRY WALES

golwg+
Y cylchgrawn digidol Cymraeg

Posau
Cip
Amser lliwio
Straeon

lingo+
Y cylchgrawn digidol i bobl sy'n dysgu Cymraeg

buzz

MATERIAL QUEER
CELEBRATING OUR CULTURE

# Busnesau a chyhoeddiadau newydd

**Mae buddsoddiad yn ein hisadeiledd cyhoeddi yn hanfodol er mwyn sicrhau sector cyhoeddi sydd yn adlewyrchu Cymru ac sydd o fudd i'r wlad gyfan.**

Mae grantiau Cynulleidfaoedd Newydd wedi ariannu dros 113 o gyhoeddiadau ac wedi sefydlu tai cyhoeddi, cylchgronau a chyrff newydd. Mae cyllid wedi cefnogi Lucent Dreaming, cyhoeddwr llyfrau a chylchgronau cyntaf Cymru sy'n cael ei ariannu ac sy'n cael ei arwain gan ddau olygydd o liw, cyflogedig llawn amser. Mae hefyd wedi galluogi sefydlu llwyfannau ar-lein newydd ar gyfer cynnwys digidol, megis *Material Queer* a *Modron*.

Ers 2022, mae'r gronfa wedi creu 117 o swyddi newydd yn y sector cyhoeddi yng Nghymru, gan gynnwys rolau amser llawn, rhan-amser, llawrydd, interniaeth a hunangyflogaeth mewn ystod o feysydd creadigol. Mae'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr hyn yn aml yn rhai cyfnod penodol oherwydd natur y cyllid, ac er eu bod wedi profi eu potensial i gynyddu cyfleoedd a datblygu llif o dalent newydd o fewn y diwydiant, mae cyllid hirdymor yn hanfodol er mwyn adeiladu ar y datblygiadau cynnar hyn.

**MENYWOD CYHOEDDI CYMRU / WOMEN PUBLISHING WALES**

Rhwydwaith ddeinamig sy'n ceisio cysylltu a grymuso menywod ym maes cyhoeddi yng Nghymru, trwy ddatblygiad proffesiynol, ymgysylltu â'r gymuned, a digwyddiadau cydweithredol. Trwy greu gofod cynhwysol lle gall menywod ffynnu a symud ymlaen yn eu teithiau proffesiynol, bydd MCC/WPW yn helpu i ehangu doniau menywod yn y maes cyhoeddi, a datgloi eu potensial llawn.

**LUCENT DREAMING**

Gyda chefnogaeth y grant, ers 2022 mae Lucent Dreaming wedi tyfu o fod yn gylchgrawn ysgrifennu creadigol i fod yn gyhoeddwr casgliadau barddoniaeth, nofelau, a blodeugerddi gan awduron newydd. Mae cyllid diweddar wedi galluogi cynhyrchu podlediadau a fideos ar gyfer cyfweliadau ag awduron a lansiadau llyfrau.

**MODRON**

Y cylchgrawn llenyddol Cymreig cyntaf ar yr argyfwng hinsawdd:

> **"Diolch i gyllid Cynulleidfaoedd Newydd 2023–2024, mae *Modron* yn gylchgrawn ar-lein ffyniannus, sy'n canolbwyntio ar fater pwysicaf ein hoes: yr argyfwng ecolegol, a'r syniadau cysylltiedig o eco-gyfiawnder a gwrth-hiliaeth. Rydym yn gyffrous i barhau i ddatblygu'r cylchgrawn eleni (2024), gan weithio ar atgyfnerthu ein cynnwys digidol ac estyn allan."**

## Mentrau newydd sydd wedi eu cefnogi

**DR GEMMA JUNE HOWELL,**
CYFARWYDDWR, MENYWOD CYHOEDDI CYMRU

“Mae menywod yn chwarae rhan sylweddol yn y dirwedd gyhoeddi, ac mae’n hen bryd cael rhwydwaith benodol ar eu cyfer. Gadewch i ni daflu goleuni ar leisiau amrywiol Cymru, gwneud cysylltiadau ystyrlon a chefnogi’n gilydd – ar gyfer cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol o fenywod ym maes cyhoeddi yng Nghymru.”

LUCENT DREAMING

MODRON

MATERIAL QUEER

MENYWOD CYHOEDDI CYMRU

SEBRA

CWLWM

THESE PAGES SING

FIREFLY IGNITE

# Beth arall?

**Mae llawer o'r prosiectau a ariannwyd gan grantiau Cynulleidfaoedd Newydd wedi defnyddio ysgrifennu a chyhoeddi fel sail i weithgareddau sy'n anelu at gynyddu cynhwysedd, creadigrwydd a hygyrchedd mewn cymunedau lleol.** Maent wedi cynnwys ymweliadau ag ysgolion, gweithdai creadigol a chlybiau llyfrau sydd wedi dod â phobl a chymunedau ynghyd, a chefnogi pobl i adrodd eu straeon eu hunain. Mewn llawer o achosion, maent wedi galluogi rhai nad ydynt efallai wedi cael y cyfle na'r hunanhyder i ystyried ysgrifennu neu gyhoeddi fel gyrfa bosibl i gymeryd eu camau cyntaf i mewn i'r diwydiant.

Defnyddiodd **MYMUNA SOLEMAN** ei grant i gynnal gweithdai ysgrifennu creadigol mewn saith ysgol yn ne Cymru, gan annog pobl ifanc i archwilio themâu hunaniaeth, perthyn, ac, yn benodol, beth oedd 'Cartref' yn ei olygu iddyn nhw. Roedd disgyblion yn gallu mynegi eu hunain mewn unrhyw ffurf gelfyddydol yr oeddent yn teimlo'n gyfforddus ynddi, gan gynnwys ysgrifennu, creu rapiau a cherddi, delweddau a lluniau.

Defnyddiodd **ADERYN PRESS** y grant i gynnal gweithdai ar gyfer awduron dosbarth gweithiol a menywod sydd wedi dioddef trawma, mewn cydweithrediad â Thrive Women's Aid a DOVE Workshop. Roedd y gweithdai yn ymdrin ag agweddau gwahanol o gyhoeddi ac ysgrifennu creadigol; yn adeiladu rhwydweithiau, magu hyder a darparu cyfleoedd (oedd yn aml yn gyfleoedd cyntaf) i'r cyfranogwyr.

Cynhaliodd **LEZ READ**, clwb llyfrau yng Nghaerdydd ar gyfer pobl lesbaidd a lesbaidd gyfagos, ddigwyddiadau misol yn The Queer Emporium lle cyflwynwyd hanes cryno (amharchus) o awdur dethol i'r rhai oedd yn bresennol a darllen rhywfaint o'u gwaith. Roedd gan y clwb bolisi nad oedd rhaid darllen ymlaen llaw a chroesawyd darllenwyr o bob lefel a phrofiad.



# Beth nesaf i Gynulleidfaoedd Newydd?

**Mae cyllid Cynulleidfaoedd Newydd Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cymaint o unigolion dawnus i wireddu'r potensial sydd ganddynt ac wedi rhoi rhagolwg i Gymru o sut beth fyddai diwydiant cyhoeddi gwirioneddol gynrychioliadol.**

Mae wedi bod yn gyffrous ac yn ysbrydoledig gweithio gyda Cymru Greadigol i gyflwyno cymaint o unigolion a chymunedau i'r diwydiant a'r cyfleoedd allai eu darparu, ac wrth wneud hynny, i greu cynnwys newydd i ddarllenwyr, sy'n adlewyrchu eu bywydau yng Nghymru heddiw. Er mwyn i'r camau cychwynnol hyn ddod yn wirioneddol drawsnewidiol, mae angen cymorth parhaus ar yr unigolion hyn ac, yn eu tro, y rhai y maent yn eu hysbrydoli.

Yn 2025 rydym yn dathlu tair blynedd o'r Grant Cynulleidfaoedd Newydd drwy wahodd derbynwyr y gorffennol a'r presennol i ddigwyddiad i drafod eu prosiectau, eu cyflawniadau, a'r heriau o ran cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru. Byddant yn myfyrio ar effaith y buddsoddiad ac yn cyfnewid syniadau ar gyfer y dyfodol.

Hoffem ddiolch i Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i'r gronfa drawsnewidiol hon, sydd â'r potensial i barhau i greu newid parhaol yn ein sector cyhoeddi er budd Cymru gyfan.

**Gallwch ddarganfod mwy am y prosiectau Cynulleidfaoedd Newydd ar ein gwefan:**
**llyfrau.cymru**



MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE